# Rhyddid gwybodaeth a chofnodion gweinyddol yr Archifau Cenedlaethol: eich hawliau mynediad

Mae'r daflen hon yn dweud wrthych am eich hawliau mynediad yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth (RhG) 2000, a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (RhGA) 2004, a sut mae'r hawliau hyn yn berthnasol i gofnodion ein busnes, gwasanaethau, polisïau a gweithrediadau'n gyffredinol. Mae'r daflen hon yn ymdrin â chofnodion gweinyddol gweddol ddiweddar yn unig. Nid yw'n berthnasol i gofnodion hŷn yr Archifau Cenedlaethol sydd wedi eu dethol i'w cadw'n barhaol ac sydd yn cael eu cadw fel archifau.

Beth yw fy hawliau allweddol?

Yn unol â Deddf RhG a'r RhGA mae gennych hawl i:

- wybod a yw'r wybodaeth y mae arnoch ei eisiau gennym ai peidio

- cael mynediad at yr wybodaeth honno (lle bynnag y bo modd).

Pa ddewisiadau sydd gennyf?

- Edrychwch i ddechrau ar ein cynllun cyhoeddi sydd ar ein gwefan: www.nationalarchives.gov.uk Mae'r cynllun hwn yn rhoi mynediad hawdd a hwylus i lawer iawn o ddeunydd heb unrhyw angen am wneud cais ysgrifenedig ffurfiol

- Gellwch wneud cais yn unol â RhG.

Pwy all wneud cais yn unol â RhG?

- Unrhyw un mewn unrhyw ran o'r byd – nid oes rhaid i chi fod yn ddinesydd neu'n breswylydd y DU.

Sut mae mynd ati i wneud cais yn unol â RhG?

Nodwch yn glir yr wybodaeth yr ydych yn ei cheisio naill ai drwy:

- lenwi'r ffurflen sydd ar ein gwefan: www.nationalarchives.gov.uk/contact/form/

• neu drwy ysgrifennu at ein Gwasanaeth Ymholiadau, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Richmond, Surrey TW9 4DU

• os bydd eich ymholiad yn ymwneud â gwybodaeth amgylcheddol, mae gennych hawl i wneud eich cais drwy ein ffonio (020 8876 3444) ond bydd yn haws i ni ymdrin â'r cais os defnyddiwch y ffurflen gyswllt neu ysgrifennu atom

Cofiwch gynnwys eich manylion cyswllt gyda'ch cais.

Faint o amser fydd yn ei gymryd?

• Mae'n ddyletswydd arnom i ymateb i'ch cais a chyflwyno'r wybodaeth, os na fydd rhesymau penodol yn ein rhwystro rhag gwneud hynny (eithriadau), o fewn 20 diwrnod gwaith.

A fydd RhG yn berthnasol i gofnodion gweinyddol yr Archifau Cenedlaethol nad ydynt eisoes ar gael i'r cyhoedd?

• Bydd. Os yw'r wybodaeth a geisir gennych mewn cofnodion nad ydynt eisoes ar agor, cewch wneud cais RhG

• Byddwn yn edrych ar y cofnod

• Os nad oes eithriad RhG yn berthnasol iddi, fe ryddheir yr wybodaeth.

A fydd rhaid i mi dalu am yr wybodaeth?

• Na fydd, oni fydd natur eich cais yn golygu y byddai'r gost yn uwch na'r hyn a ganiateir – sef £600 neu oddeutu tridiau o waith. Mewn achos o'r fath, byddwn naill ai'n gwrthod ymdrin â'r cais neu'n codi arnoch am yr holl gost o ymdrin ag ef

• Wedi i ni dderbyn eich cais, byddwn yn asesu'r gost o ddelio ag ef ac, os bydd angen, yn dweud wrthych faint fydd hynny

• Os bydd angen tâl, ni wnawn yr archwiliad hyd nes i ni dderbyn y taliad.

Os deuwn o hyd i'r wybodaeth ac os byddwn yn cael ei rhyddhau, byddwn yn ei rhoi i chi.

Beth yw'r drefn os wyf am wneud cwyn?

Mae gennych hawl i gwyno os ydych yn anfodlon gyda'r modd yr ymdriniwn â'ch cais. Os ydych yn dymuno cwyno, gofynnir i chi gysylltu â ni. Am fanylion pellach, dilynwch y cyswllt hwn: www.nationalarchives.gov.uk/contact/complaints.htm